Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Abererch

**Abererch**
**Pwllheli**
**Gwynedd**
**LL53 6YU**

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Abererch

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Abererch |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 71 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 63 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 5 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 17.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 14.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 62.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/03/2012 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/02/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 30/09/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn naws gyfeillgar, gynhwysol a theuluol yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn adeiladu perthnasoedd gwaith cadarnhaol ag aelodau staff sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at yr awyrgylch ddysgu fuddiol a threfnus. Mae agweddau disgyblion at eu dysgu yn gryfder nodedig ac mae eu hymddygiad yn dda.

Nodwedd gref o'r ysgol yw natur gyfeillgar a hapus y disgyblion. Maent yn feddylgar at eraill, yn sgwrsio'n gwbl naturiol â'i gilydd ac oedolion yn Gymraeg, ac yn dangos diddordeb a chwilfrydedd yn y byd o'u cwmpas. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu hysgol a'u treftadaeth leol. Maent yn dangos balchder yn llwyddiannau'r ysgol, er enghraifft wrth i'r 'Dreigiau Bach' gyflwyno'u gwaith mewn cynhadledd.

Mae staff yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i'r disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio ystod o brofiadau cyfoethog a gweithgareddau diddorol sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun lleol yr ysgol. Maent yn darparu profiadau dysgu ysgogol sy'n cymell disgyblion i ddysgu'n llwyddiannus. Er hyn, nid yw disgyblion bob tro'n cael cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn ddigon adeiladol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r pennaeth yn rhannu ei weledigaeth, sef 'Cyfle i bawb lwyddo', yn glir ac mae cymuned yr ysgol yn cydweithio'n ddiwyd i'w gwireddu. Caiff yr ysgol ei harwain yn effeithiol gan dîm medrus sy'n adnabod y cryfderau a'r agweddau sydd angen eu gwella. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i holl waith yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r camau gwella nesaf.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud 1 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Darparu cwricwlwm sy'n cefnogi pob disgybl i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn adeiladol ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Gynradd Abererch yn gymuned ddysgu ofalgar sy'n cynnal lles, darparu cymorth ac arweiniad cadarn i'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae arweinyddiaeth angerddol a grymus y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol ac yn meithrin diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus yn llwyddiannus. Gyda chefnogaeth staff medrus, mae'r pennaeth yn arddel diwylliant cadarnhaol sy'n ymgorffori egwyddorion arwyddair yr ysgol yn dda, sef 'Cyfle i bawb lwyddo'. Mae ymdeimlad cryf o deulu wedi ei wreiddio yn yr ysgol, ac mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn nodwedd gref o fywyd a gwaith yr ysgol.

Bron heb eithriad, mae disgyblion yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae natur ofalgar yr ysgol yn hyrwyddo ymddygiad da ymysg disgyblion ac yn eu hannog i ofalu am a pharchu ei gilydd. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn gwrtais â'i gilydd, staff ac ymwelwyr ac yn cefnogi'u cyfoedion yn gynhaliol. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion y rhai ieuengaf ar y buarth, gan sicrhau eu bod yn dychwelyd yn ddiogel i'w dosbarth ar ôl amseroedd egwyl.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau hunanwerthuso cynhwysfawr a thrwyadl ar gyfer monitro a gwella'r ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion. Maent yn casglu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol ac yn defnyddio'r wybodaeth yn grefftus i nodi'r meysydd i'w gwella. O ganlyniad, mae blaenoriaethau gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n gadarn ar ddatblygu medrau a chodi safonau disgyblion. Mae arweinwyr yn monitro effaith y gweithgareddau hyn ar y ddarpariaeth, ac o ganlyniad, mae staff yn datblygu eu dulliau addysgu i fod yn fwy cyson ar draws yr ysgol. Yn ddiweddar, mae staff wedi canolbwyntio ar ddatblygu gweithgareddau sy'n hybu gwydnwch y disgyblion er mwyn eu cefnogi i fod yn ddysgwyr mwy annibynnol. Mae'r hyfforddiant wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau a mwynhad disgyblion at ddatrys problemau ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn cyfrifo llog ar arbedion ym 'Manc Berch' yn fedrus.

Mae athrawon a chymorthyddion yn defnyddio iaith raenus yn gyson er mwyn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu dysgu a'u chwarae. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar gyfraniadau eu cyfoedion. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn ymateb yn gynyddol hyderus wrth ymateb i gyfarwyddiadau a chwestiynau gan ddefnyddio ystod dda o eirfa a phatrymau wrth gynnig syniadau. Mae'r disgyblion yn falch o gyfathrebu yn y Gymraeg, ac mae'r 'Dreigiau Bach' yn annog eu cyfoedion i siarad a defnyddio'r iaith yn ddigymell.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddarllen ac yn gyfarwydd â phwrpas a chynnwys llyfrau. Maent yn datblygu eu medrau dysgu darllen cynnar yn dda ac mae llawer yn hyderus wrth gyflwyno gwybodaeth ar goedd ac wrth drafod storïau cyfarwydd. Mae'r disgyblion hynaf yn darllen ystod dda o destunau gan ddangos diddordeb mewn llyfrau, gan drafod y cynnwys yn aeddfed. Er enghraifft, wrth iddynt gynnig syniadau am gynnwys broliant mewn llyfr newydd awdures adnabyddus.

Trwy ymgymryd ag ystod dda o brofiadau dysgu pwrpasol sydd ar gael i'r disgyblion ieuengaf, mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf yn datblygu'n gadarn. Maent yn ymarfer ac yn datblygu eu medrau modur mân yn effeithiol trwy ystod o weithgareddau buddiol, gan gynnwys defnyddio morthwyl go iawn i daro hoelion mewn darnau o bren yn y 'cwt coed'. Erbyn Blwyddyn 1, mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu brawddegau'n hyderus am eu hymweliad i lan y môr yn lleol. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn ysgrifennu'n hyderus mewn ystod o wahanol ffurfiau ac yn dangos aeddfedrwydd a hiwmor yn eu gwaith wrth ddewis a dethol geiriau ac ymadroddion yn grefftus.

Mae'r athrawon yn darparu cwricwlwm pwrpasol sydd wedi'i seilio'n gadarn ym milltir sgwâr y disgyblion. Maent yn cydweithio'n agos â rhieni ac aelodau'r gymuned er mwyn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cynefin a'u treftadaeth. Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymweld â thraethau lleol yn rheolaidd er mwyn datblygu'u hymwybyddiaeth o fyd natur, yn ogystal â hanes a daearyddiaeth yr ardal. Mae staff yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn maent eisiau ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Mae hyn yn meithrin diddordeb a'u hagweddau cadarn at eu gweithgareddau, ac yn eu hannog i gymryd perchnogaeth dros eu dysgu. Yn gyffredinol, mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu profiadau buddiol ac eang ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth am gynnydd disgyblion yn briodol er mwyn eu cefnogi i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Er hyn, nid yw'r disgyblion bob tro'n cael cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn adeiladol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth pwrpasol ac o ansawdd uchel i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae trefniadau'r ysgol yn adnabod anghenion unigol disgyblion yn gynnar ac yn sicrhau bod y gefnogaeth yn cael ei theilwra'n fedrus i'w hanghenion personol. Mae cynlluniau dysgu unigol yn amlinellu'n glir anghenion dysgu'r disgyblion sy'n cyfrannu'n werthfawr at allu'r athrawon i gefnogi a chynllunio'n fwriadus ar eu cyfer. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar les corfforol ac emosiynol disgyblion. Mae gweithgareddau fel 'dal i fynd' a sesiynau corfforol penodol yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol at les ac yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu dulliau da i reoli eu hemosiynau. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr a chyfoethog i ddisgyblion fyfyrio ar faterion moesegol pwysig. Maent yn dathlu gwahaniaethau o fewn cymdeithas yn ystod gwasanaethau wythnosol a myfyrdod dyddiol yn effeithiol.

Mae'r pennaeth yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol am newyddion a digwyddiadau'r ysgol yn amserol. Gwneir ymdrech sylweddol i gaffael barn rhieni am weithgareddau'r ysgol sy'n cyfrannu'n werthfawr at sicrhau perthynas waith gynhyrchiol sy'n rhan greiddiol o'i llwyddiant. Er enghraifft, mae staff yn gweithredu ar fewnbwn a gafodd ei gynnig gan rieni wrth i staff ddatblygu gwybodaeth berthnasol am gynnydd a phrofiadau'r disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus ac yn weithgar yn ei rôl wrth fonitro a datblygu perfformiad yr ysgol ymhellach. Ar y cyd ag arweinwyr, maent yn defnyddio dulliau perthnasol i werthuso a gosod blaenoriaethau gwella yn effeithiol er mwyn cefnogi staff i ddatblygu'r ddarpariaeth. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch y safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/12/2024